**Asesiad Effaith Cymunedol**

**Darpariaeth Arbenigol i Ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr Ymgynghoriad:** | **DARPARIAETH AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY): CAM 1** |
| **Disgrifiad Cryno o'r cynnig:** | Mae'r Cyngor yn cynnig ychwanegu lleoedd fel a ganlyn: |

| Ysgol | Cynyddu/Newydd | Lleoedd presennol | Lleoedd newydd | Math | Lleoliad |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Baden Powell | Cynyddu | 8 | 16 | CAA ILlE Cynradd | Adeiladau presennol |
| Ysgol Gynradd y Tyllgoed | Cynyddu | 8 | 16 | CAA ILlE Cynradd | Adeiladau presennol |
| Ysgol Coed-y-gof* | Newydd | 0 | 8 | CAA ILlE Cynradd | Adeiladau presennol |
| Ysgol Arbennig Greenhill | Cynyddu | 64 | 128 | Ysgol Arbennig ILlE Uwchradd | Safle gwag Ysgol Cynefin (Ysgol Arbennig The Court), Llanisien |
| Ysgol Gynradd Radnor ** | Newydd | 0 | 30 | CAA ACC Cynradd | Adeiladau presennol |
| Ysgol Gynradd Hywel Dda | Newydd | 0 | 10 | CAA ACC Cynradd | Adeiladau presennol |
| Ysgol Glan Morfa* | Newydd | 0 | 10 | CAA ACC Cynradd | Adeiladau presennol |
| Ysgol Uwchradd Fitzalan | Newydd | 0 | 42 | CAA ACC Uwchradd | Adeiladau presennol |
| Ysgol Bro Edern* | Newydd | 0 | 10 | CAA ACC Uwchradd | Adeiladau presennol |
| Ysgol Gynradd Adamsdown | Newydd | 0 | 10 | CAA ADC Cynradd | Adeiladau presennol |
| Ysgol Gynradd Pencaerau | Newydd | 0 | 20 | CAA ADC Cynradd | Adeiladau presennol |
| Ysgol Gynradd Peter Lea | Newydd | 0 | 20 | CAA ADC Cynradd | Adeiladau presennol |
| Ysgol Arbennig Meadowbank | Cynyddu | 98 | 110 | Ysgol Arbennig ADC Cynradd | Adeiladau presennol |
| Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn | Cynyddu | 240 | 300 | Ysgol Arbennig ADC / CM | Safle presennol / safle gwag Ysgol Arbennig Riverbank |
| Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn | Cynyddu | 300 | 320 | Ysgol Arbennig ADC / CM | Adeilad newydd yn Nhŷ Glas |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Woodlands | Cynyddu | 240 | 300 | Ysgolion Arbennig ADC Uwchradd | Campws Cymunedol y Tyllgoed/ safle presennol |
| Ysgol Uwchradd Woodlands | Cynyddu | 300 | 360 | Ysgolion Arbennig ADC Uwchradd | Adeilad newydd yn Vincent Road |
| Ysgol Gynradd Hywel Dda | Cynyddu | 10 | 20 | CAA ACC Cynradd | Adeilad newydd ar y safle |

* = Darpariaeth Gymraeg

** = ehangu fesul cam, 10 lle newydd y flwyddyn am 3 blynedd

Mae manylion llawn y newidiadau arfaethedig wedi'u cynnwys yn y dogfennau ymgynghori sydd i'w gweld yn [Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)]

**Pam mae newid yn cael ei gynnig?**

Mae galw cynyddol am leoedd arbenigol i ddysgwyr oed cynradd ac uwchradd sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a dim digon o lefydd a gynhelir ar gael gan y Cyngor i ddiwallu'r galw.

**Ydy'r newid arfaethedig yn newid dros dro neu barhaol?**

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn darparu cynnydd parhaol yn nifer y lleoedd arbenigol cynradd ac uwchradd Saesneg a Chymraeg ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**Pryd y bwriedir i'r newid ddod i rym?**

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn dod yn weithredol o fis Ionawr 2027 gyda'r eithriadau canlynol:

- Byddai'r ganolfan arfaethedig yn Ysgol Bro Edern yn dod yn weithredol o fis Medi 2027
- Byddai'r cynnydd o 300 i 320 o leoedd yn Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn yn digwydd o fis Medi 2030
- Byddai'r cynnydd o 300 i 360 o leoedd yn Ysgol Uwchradd Woodlands yn digwydd o fis Medi 2032.
- Byddai'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol arfaethedig yn Ysgol Gynradd Radnor yn darparu 10 lle yn 2026/27 gyda chwmpas i ymestyn i 20 lle yn 2027/28 a 30 lle yn 2028/29.
- Byddai'r cynnydd o 10 i 20 o leoedd yn Ysgol Gynradd Hywel Dda yn digwydd yn 2028/29

**Ble mae modd gweld rhagor o fanylion am yr ymgynghoriad?**

Gallwch weld rhagor o fanylion am yr ymgynghoriad yn: [Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)]

Rydym yn deall y gall newidiadau i ysgolion effeithio ar y gymuned y maent ynddi neu y maent yn eu gwasanaethu. Asesir effaith newidiadau drwy lunio **Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned.**

Mae amrywiaeth o ddarpariaethau arbenigol ledled Caerdydd gyda darpariaethau pellach yn cael eu cynnig. Y Cyngor sy'n rheoli derbyniadau i ddarpariaeth arbenigol, yn unol â'r Cod ADY. Panel lleoli darpariaeth arbenigol sy'n penderfynu ar leoliadau. Nod y panel yw gosod plant mor agos i'w cyfeiriad cartref â phosib, fodd bynnag mae pob darpariaeth yn cynnig lleoedd i ddisgyblion o bob rhan o'r ddinas i sicrhau'r hyblygrwydd mwyaf.

Caiff y canlynol eu hystyried:

**Pa ardal ddaearyddol sydd wedi'i chynnwys yn yr Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymuned?**

Mae'r newidiadau arfaethedig yn cynnwys ehangu lleoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol presennol a sefydlu lleoliadau newydd mewn ystod o leoliadau ledled y ddinas.

Mae'r wybodaeth sy'n berthnasol i'r ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y newidiadau arfaethedig wedi'i nodi isod.

**Cyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol**

Nid oes dalgylchoedd ar gyfer darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n gwasanaethu'r ddinas gyfan. Mae disgyblion yn cael eu gosod yn y ddarpariaeth fwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion, a lle bo'n bosibl, lleihau'r pellter y mae'n rhaid i ddysgwyr deithio o'u cartref i'r ysgol.

**Unrhyw gyfleusterau eraill y mae'r ysgol yn eu lletya e.e., clwb ieuenctid/grŵp chwarae**

Mae ysgolion wedi darparu'r wybodaeth ganlynol:

**<u>Ysgol Gynradd Adamsdown</u>**

- Mae'r ysgol yn datblygu cynlluniau i agor canolfan ar ôl ysgol ar ôl cael grant loteri. Ni fydd agor y CAA yn effeithio ar hyn.

**<u>Ysgol Gynradd Baden Powell</u>**

- I'w ddiweddaru yn ystod yr ymgynghoriad

**<u>Ysgol Gynradd y Tyllgoed</u>**

- <u>I'w ddiweddaru yn ystod yr ymgynghoriad</u>

**<u>Ysgol Uwchradd Fitzalan</u>**

- Mae amryw o glybiau lleol yn defnyddio ein caeau a'n Neuadd Chwaraeon ar gyfer gemau Pêl-droed, Rygbi, Hoci a Phêl-fasged. Mae gennym hefyd Eglwys leol sy'n defnyddio ein safle bob Dydd Sul ar gyfer Gwasanaeth ac maen nhw hefyd yn

cynnal eu cyfarfodydd Ysgol Sul yno. Mae Stagecoach, clwb drama lleol, yn defnyddio'r ysgol bob Dydd Gwener, Dydd Sadwrn a Dydd Sul.

**Ysgol Arbennig Greenhill**

- I'w ddiweddaru yn ystod yr ymgynghoriad

**Ysgol Gynradd Hywel Dda**

- Nid yw'r ysgol yn lletya unrhyw gyfleusterau eraill.

**Ysgol Arbennig Meadowbank**

- Nid yw'r ysgol yn lletya unrhyw gyfleusterau eraill.

**Ysgol Gynradd Pencaerau**

- Nid yw'r ysgol yn lletya unrhyw gyfleusterau eraill.

**Ysgol Gynradd Peter Lea**

- Mae yn grŵp wythnosol i blant bach yn cael ei gynnal yn ystafell gymunedol yr ysgol.
- Ar hyn o bryd mae dosbarthiadau rhianta yn cael eu cynnal gan Goleg Caerdydd a'r Fro a Gwasanaethau Rhianta Caerdydd.

**Ysgol Gynradd Radnor**

- Mae'r ysgol yn lletya darpariaeth clwb ar ôl ysgol preifat sy'n cael ei redeg gan Playworks rhwng 3:15pm a 6pm o Ddydd Llun i Ddydd Gwener.
- Mae Meithrinfa Breifat Green Giraffe wedi eu lletya yn hen dŷ'r gofalwr

**Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn**

- Mae'r ysgol yn darparu cyfleusterau i Elusen Cynllun Chwarae Tŷ Gwyn i'w llogi yn ystod rhai cyfnodau o wyliau ysgol

**Ysgol Uwchradd Woodlands**

- Nid yw'r ysgol yn lletya unrhyw gyfleusterau eraill.

**Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof**

- Mae gan yr ysgol ystafell gymunedol sy'n cael ei defnyddio gan grwpiau fel "Aros a Chwarae" a Rhianta Caerdydd yn ystod oriau ysgol.
- Yn ystod gwyliau'r ysgol, mae Menter Caerdydd yn cynnal cynllun chwarae am ddim yn yr ysgol am ddwy awr, pedwar bore yr wythnos.

**Ysgol Glan Morfa**

- Clwb Ieuenctid Rhieni Sengl – a gynhelir bob Dydd Llun rhwng 5–7pm.

- Cylch Meithrin Glan Morfa – darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg ar y safle.
- Clwb ar ôl Ysgol Goldstars – yn defnyddio neuadd yr ysgol bob dydd o 3–6pm.
- Llogi preifat achlysurol – mae neuadd yr ysgol yn cael ei llogi ar gyfer partïon plant a digwyddiadau cymunedol pan fydd ar gael.

**<u>Ysgol Bro Edern</u>**

- Nid yw'r ysgol yn lletya unrhyw gyfleusterau eraill.

**Unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clybiau ar ôl ysgol, llyfrgell gymunedol.**

Mae ysgolion wedi darparu'r wybodaeth ganlynol:

**<u>Ysgol Gynradd Adamsdown</u>**

- Clybiau ar ôl ysgol

**<u>Ysgol Gynradd Baden Powell</u>**

- I'w ddiweddaru yn ystod yr ymgynghoriad

**<u>Ysgol Gynradd y Tyllgoed</u>**

- I'w ddiweddaru yn ystod yr ymgynghoriad

**<u>Ysgol Uwchradd Fitzalan</u>**

- Mae'r ysgol yn cynnig nifer o glybiau ysgol fel rhan o'i amserlen allgyrsiol. Mae hyn yn cynnwys clwb STEM; clybiau chwaraeon amrywiol gan gynnwys pêl-droed, gymnasteg a phêl-fasged; Clwb *fit for fuel* sy'n ymhel â bwyd a maeth; Clwb Lleisiol a Drama; clwb Eco a chlwb gwaith cartref sy'n agored i bob disgybl sydd angen lle, adnoddau a chefnogaeth gyda gwaith cartref.

**<u>Ysgol Arbennig Greenhill</u>**

- I'w ddiweddaru yn ystod yr ymgynghoriad

**<u>Ysgol Gynradd Hywel Dda</u>**

- Clwb Brecwast,
- Cwt Hywel (pantri cymunedol),
- Clwb Bwyd a Hwyl bob haf, sy'n hanfodol ac yn defnyddio amrywiaeth eang o fannau yn yr ysgol.
- amrywiaeth o glybiau/gweithgareddau ar ôl ysgol sy'n cael eu rhedeg gan staff ac ychydig o bartneriaid allanol, megis Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, grŵp theatr, clwb bocsio. Mae'r rhain ar ôl ysgol am awr unwaith yr wythnos.
- Gardd Chwarae Gymunedol yn cael ei datblygu ar hyn o bryd, gyda Grant y Loteri Genedlaethol, a fydd yn cynnwys sesiynau chwarae cymunedol
- Mae tyfu bwyd cymunedol ar gamau cynnar

- Ystod o gyrsiau a gweithdai dysgu oedolion a dysgu i'r teulu - mae rhaglen ar waith, ac mae amrywiaeth o gyrsiau yn cael eu cynnal bob wythnos.

**Ysgol Arbennig Meadowbank**

- Nid yw'r ysgol yn darparu unrhyw gyfleuster neu wasanaeth arall.

**Ysgol Gynradd Pencaerau**

- Clybiau ar ôl ysgol
- Gardd Gymunedol
- Grwpiau Rhieni
- Dosbarth Ffitrwydd Cymunedol
- Banc Bwyd

**Ysgol Gynradd Peter Lea**

- Nid yw'r ysgol yn darparu unrhyw gyfleuster neu wasanaeth arall.

**Ysgol Gynradd Radnor**

- Mae'r ysgol yn darparu clybiau ar ôl ysgol Ddydd Mawrth a Dydd Iau rhwng 3:15pm a 4:15pm, sy'n cael eu rhedeg gan athrawon a Chlwb Pêl-droed Dinas Caerdydd.
- Mae'r Adar Gleision yn rhedeg clwb bob tymor fel darpariaeth sy'n codi tâl ac mae clybiau eraill yn cael eu rhedeg ar sail wirfoddol gan staff addysgu ac yn rhedeg am oddeutu 25 allan o 39 wythnos.
- Mae Clwb Kidslingo Ffrangeg yn cael ei gynnal amser cinio Ddydd Iau o 12 - 12:45pm

**Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn**

- Nid yw'r ysgol yn darparu unrhyw gyfleuster neu wasanaeth arall.

**Ysgol Uwchradd Woodlands**

- Nid yw'r ysgol yn darparu unrhyw gyfleuster neu wasanaeth arall.

**Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof**

- Mae'r ysgol yn cynnal amrywiaeth o grwpiau a gweithdai i rieni'r ysgol a'r rhai yn y gymuned yn ystafell gymunedol yr ysgol, mae enghraifft o weithgareddau isod:
- Yn ogystal, mae banc bwyd ar y safle, mae'r ysgol yn dosbarthu hamperi Nadolig ac yn rhoi parseli i deuluoedd mewn angen ac yn gweithio gyda Phartneriaeth Ddysgu Trelái a Chaerau i ddatblygu adnoddau cymunedol i deuluoedd.
- Mae gan yr ysgol stoc eang o wisg ysgol Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof ac Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr sydd ar gael yn rhad ac am ddim i ddisgyblion. O fewn y banc dillad mae amrywiaeth eang o ddillad plant gan gynnwys esgidiau, pyjamas, dillad hamdden a banc teganau.
- Mae llyfrgell yr ysgol ar agor ar ôl ysgol unwaith yr wythnos i alluogi rhieni i ddarllen gyda'u plant ac i fenthyg llyfrau. Mae yna ystod eang o lyfrau sy'n addas ar gyfer brodyr a chwiorydd iau a hŷn, ac i rieni.

- Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth ag Ysgol Gymraeg Nant Caerau ac Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr i ddatblygu gardd gymunedol a chyfleuster Bocs Bwyd Mawr yng Nghaerau. Nod y prosiect hwn yw datblygu gardd gymunedol a banc bwyd i deuluoedd yn yr ardal, gyda chynllun tymor hwy ar gyfer cyfnewid gwisgoedd ysgol, golchi dillad a chegin deuluol. Er nad yw'n agos at yr ysgol yn ddaearyddol, mae llawer o deuluoedd yr ysgol yn byw yng Nghaerau a Threlái.
- Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau cymunedol drwy gydol y flwyddyn, er enghraifft, canu yn nigwyddiad goleuo coeden Nadolig y Tyllgoed, canu yn y cartref gofal lleol, bod yn "hyrwyddwyr cymunedol" trwy gasglu sbwriel yn yr ardal, plannu coed gyda Choed Caerdydd yng Nghanolfan Hamdden y Tyllgoed a Bishop Hannon Drive.

**<u>Ysgol Glan Morfa</u>**

- Ystod eang o glybiau ar ôl ysgol gan gynnwys clybiau chwaraeon, y celfyddydau, TGCh, garddio a chlwb Cymraeg.
- Darpariaeth gwyliau drwy sefydliadau partner pan fydd ar gael e.e. Cynllun Chwarae Bwrlwm drwy Fenter Caerdydd bob gwyliau ysgol.
- Mynediad cymunedol i ddigwyddiadau ysgol fel cyngherddau, ffair a dathliadau.

**<u>Ysgol Bro Edern</u>**

- Mae nifer o glybiau ar ôl ysgol sy'n gysylltiedig ag adrannau:  Gweithgareddau chwaraeon a chlybiau diwylliannol allgyrsiol.
- Mae clwb dawns ar hyn o bryd yn defnyddio safle’r ysgol dair noson yr wythnos.

**A yw'r ysgol yn defnyddio unrhyw gyfleusterau cymunedol?**

Mae'r cynigion yn cwmpasu ystod o ysgolion; mae'r ysgolion wedi darparu'r wybodaeth ganlynol:

**<u>Ysgol Gynradd Adamsdown</u>**

Nid yw'r ysgol yn defnyddio unrhyw gyfleusterau cymunedol.

**<u>Ysgol Gynradd Baden Powell</u>**

- I'w ddiweddaru yn ystod yr ymgynghoriad

**<u>Ysgol Gynradd y Tyllgoed</u>**

- I'w ddiweddaru yn ystod yr ymgynghoriad

**Ysgol Uwchradd Fitzalan**

- Nid yw'r ysgol yn defnyddio unrhyw gyfleusterau cymunedol.

**<u>Ysgol Gynradd Hywel Dda</u>**

Nid yw'r ysgol yn defnyddio unrhyw gyfleusterau cymunedol.

**Ysgol Arbennig Meadowbank**

- Hyb Lleol (Llyfrgell)

**Ysgol Gynradd Pencaerau**

- Parciau Lleol
- Canolfan Hamdden y Gorllewin
- Eglwys
- Dusty Forge

**Ysgol Gynradd Peter Lea**

- Mae'r ysgol wedi defnyddio’r ganolfan hamdden i wneud gweithgareddau i gefnogi dysgu disgyblion a gwersi nofio.

**Ysgol Gynradd Radnor**

- Parc Thompson yw'r parc agosaf at yr ysgol ac mae teuluoedd yr ysgol yn ei ddefnyddio’n aml. Mae Parc Fictoria a Chaeau Llandaf hefyd yn agos iawn ac mae ganddynt ardaloedd o gaeau a meysydd chwarae.
- Mae Neuadd Llanofer ar y Cynllun Ymateb i Argyfwng yr Ysgol fel opsiwn tymor byr ac mae'r ysgol yn rhannu gweithgareddau gwyliau maen nhw'n eu cynnal yno.
- Mae clwb ar ôl ysgol Little Keepers, sy'n cynnig darpariaeth clwb ar ôl ysgol i'r ysgol, yn cynnig sesiynau cynllun chwarae gwyliau.

**Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn**

- Bydd yr ysgol fel rhan o gynnig y cwricwlwm yn manteisio ar amrywiaeth o ddarpariaethau yn y gymuned i wella profiadau dysgu

**Ysgol Uwchradd Woodlands**

- Bydd yr ysgol fel rhan o gynnig y cwricwlwm yn manteisio ar amrywiaeth o ddarpariaethau yn y gymuned i wella profiadau dysgu

**Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof**

- Mae'r ysgol yn defnyddio sawl cyfleuster cymunedol i gyfoethogi’r modd y mae’n cyflwyno’r cwricwlwm, er enghraifft, Canolfan Hamdden y Tyllgoed (gwersi nofio), Llyfrgell a Hyb Lawnt y Tyllgoed ac Eglwys yr Atgyfodiad yn Nhrelái.

**Ysgol Glan Morfa**

- Mae staff a disgyblion yn defnyddio Parc y Sblot, Parc y Maltings, Parc y Cefnfor o bryd i'w gilydd ar gyfer chwaraeon a dysgu yn yr awyr agored.

- Mae'r ysgol hefyd yn gweithio gyda llyfrgelloedd lleol a chanolfannau cymunedol ar gyfer prosiectau a digwyddiadau e.e. Green Squirrel, Cadw Sblot yn Daclus

**Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern**

Nid yw'r ysgol yn defnyddio unrhyw gyfleusterau cymunedol.

| **Effaith ddisgwyliedig ar Lety, Cyfleusterau neu Wasanaethau** | | |
|---|---|---|
| **Os yw llety, cyfleusterau neu wasanaethau yn cael eu darparu gan ysgol, a ddisgwylir unrhyw newidiadau?** ***Cynnydd / gostyngiad / darparwyr neu gyfleusterau amgen pe bai ysgol yn cau*** | **Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol** | **Sut y gellid lliniaru hyn pe bai angen** |
| Bydd sefydlu'r canolfannau neu gynnydd nifer y lleoedd yn cael eu lletya o fewn yr adeiladau presennol ac ni fydd yn lleihau nac yn dileu unrhyw fynediad neu ddarpariaeth gymunedol bresennol.<br><br>Ar gyfer ysgolion lle efallai y bydd angen gofod ychwanegol ar gyfer y ddarpariaeth arfaethedig, mae hyn wedi'i ystyried.<br><br>Mae hyn yn berthnasol i bob un o'r cynigion. | Niwtral | Dd/B |
| **Os na all ysgol ddarparu llety, cyfleusterau a gwasanaethau mwyach, fyddai neu allai cyfleusterau eraill sydd ar gael yn y gymuned leol gael eu gwella (e.e. gwelliannau i neuaddau pentref, meysydd chwarae, darparu cynlluniau chwarae gwyliau)** | **Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol** | |
| Mae'r cyfleusterau a'r llety sy'n lleol i'r ysgolion yn amrywio, fodd bynnag, mae lleoliadau amgen ar gael yn y cymunedau, e.e.<br><br>• Canolfannau Cymunedol<br>• Hybiau<br>• Parciau Lleol | Niwtral | Dd/B |

| | | |
|---|---|---|
| • Neuaddau Eglwysi | | |
| **Gwybodaeth am y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw ysgol wahanol** | **Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol** | |
| Dd/B | | |
| **Sut byddai/gellid cefnogi ymgysylltiad rhieni a disgyblion ag ysgol wahanol ac unrhyw gyfleusterau y gallai eu cynnig (e.e. sut bydd disgyblion (ac yn enwedig unrhyw ddisgyblion llai breintiedig) yn cael cymorth i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol)** | **Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol** | |
| Dd/B | | |
| **Effaith ddisgwyliedig ar Drafnidiaeth a Seilwaith** | | |
| **Oes newidiadau o ran pellter/amser teithio yn cael eu rhagweld ar gyfer disgyblion?** | **Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol** | |
| Byddai'r cynigion yn cynyddu nifer y lleoedd i blant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a allai olygu bod lleoedd arbenigol addas ar gael yn agosach at gartref y dysgwr. Yn yr achosion hyn, gellid lleihau pellter ac amser teithio. | Cadarnhaol | |
| **Effaith ar iechyd a lles e.e. os byddai'r disgyblion yn fwy neu'n llai abl i gerdded neu seiclo i'r ysgol** | **Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol** | |
| Gallai'r cynigion olygu bod lleoedd Anghenion Dysgu Ychwanegol arbenigol ar gael yn agosach at gartref plentyn sy'n | Cadarnhaol | |

| | | |
|---|---|---|
| golygu y gallent gael eu lleoli'n nes i'w cartref a gallent gynyddu nifer y plant sy'n fwy abl i gerdded, beicio a sgwtera i'r ysgol. | | |
| **Unrhyw oblygiadau ehangach y byddai'r newidiadau yn eu cael ar ddarpariaethau trafnidiaeth gyhoeddus** | **Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol** | |
| Ni ragwelir unrhyw newidiadau i ddarpariaethau trafnidiaeth gyhoeddus o ganlyniad i'r cynigion hyn. | Niwtral | |

| **Effaith Ddisgwyliedig ar Randdeiliaid** | | |
|---|---|---|
| **Pa fanteision / anfanteision a ddisgwylir ar gyfer teuluoedd â phlant oed ysgol, sy'n byw yn y dalgylch?** | **Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol** | |
| Efallai y bydd plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd angen lle arbenigol yn gallu cael eu lleoli'n nes i'w cartref. Gallai hyn arwain at lai o bellter ac amser teithio i ddisgyblion a gallai ganiatáu i rai deithio'n annibynnol. Mae'r Cyngor yn cefnogi dysgwyr gyda Hyfforddiant Teithio Annibynnol a hyfforddiant beicio. Mae hefyd yn cynllunio llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus symlach sy'n cefnogi teithio llesol a chynaliadwy.<br><br>Gall y cynigion gefnogi perthnasoedd teuluoedd â'r ysgol gan y gallai fod yn haws iddynt deithio i'r ysgol, yn enwedig os ydynt yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus i deithio yno.<br><br>Mae'r cynigion yn cynnig cyfle ar gyfer amgylcheddau dysgu cynhwysol gwell i ddysgwyr prif ffrwd a dysgwyr sy'n mynychu'r canolfannau adnoddau arbenigol. | Cadarnhaol | |

| **Pa fanteision / anfanteision a ddisgwylir ar gyfer cymdogion yr ysgol?** | **Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol** | |
|---|---|---|
| Pan gynigir cynnydd bach mewn lleoedd, efallai y bydd cynnydd bach yn nifer y cerbydau sy'n mynychu safle'r ysgol os nad yw'r disgyblion sy'n ymuno â'r ysgol yn gallu cerdded, sgwtera neu feicio i'r ysgol. | Niwtral | Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chyrff Llywodraethu'r ysgolion i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl; |
| **Pa fanteision / anfanteision a ddisgwylir ar gyfer y gymuned ehangach, gan gynnwys unrhyw faterion diogelwch?** | **Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol** | |
| Byddai'r newidiadau arfaethedig yn<br><br>• Cynyddu nifer y lleoedd i ddysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a helpu i fodloni'r galw yn y dyfodol.<br>• Gwneud y defnydd gorau o'r adeiladau ysgol presennol<br>• Lleihau'r angen am leoliadau y tu allan i'r sir trwy ddarparu mwy o leoedd yng Nghaerdydd<br>• Cynnig mwy o leoedd i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn agos i'w cartrefi, fel eu bod yn treulio llai o amser yn teithio a gall teuluoedd chwarae mwy o ran<br>• Gwella llesiant drwy wneud mannau presennol yn haws eu cyrraedd ac yn fwy cynhwysol i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>• Caniatáu i newidiadau ddigwydd fesul cam a'i gwneud hi'n bosibl newid y defnydd ar y mannau eto yn y dyfodol os bydd niferoedd y dysgwyr yn cynyddu neu leihau<br>• Osgoi'r angen am brosiectau adeiladu mawr, sy'n cefnogi targedau cynaliadwyedd. | Cadarnhaol | Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chyrff Llywodraethu'r ysgolion i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl; |

| | | |
|---|---|---|
| Pan gynigir cynnydd bach mewn lleoedd, efallai y bydd cynnydd bach yn nifer y cerbydau sy'n mynychu safle'r ysgol os nad yw'r disgyblion sy'n ymuno â'r ysgol yn gallu cerdded, sgwtera neu feicio i'r ysgol. | | |
| **Unrhyw bwyntiau ychwanegol i’w nodi** | **Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol** | |
| Dd/B | | |

| **Casgliad** |
|---|
| Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cynyddu nifer y lleoedd Anghenion Dysgu Ychwanegol arbenigol i blant a phobl ifanc ledled Caerdydd, gan ganiatáu i fwy o ddysgwyr gael eu haddysgu'n nes i’w cartrefi, llai o amser teithio i rai dysgwyr, cyfleoedd teithio llesol/annibynnol, a lleihau lefel y gwariant ar leoedd y tu allan i'r sir/annibynnol.<br><br>Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r wybodaeth/safbwyntiau a ddarperir yn ystod yr ymgynghoriad. |

Mae'r tabl isod yn amlinellu sut y rhagwelir y bydd y newidiadau arfaethedig yn cyfrannu at y nodau lles:

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

| **Nodau** | **Sut bydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 nod llesiant** |
|---|---|
| **Ffyniannus**<br>Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. | Byddai disgwyl i'r manteision canlynol ddeillio o ehangu'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol:<br><br>• cynyddu nifer y lleoedd Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol ac yn cyfrannu at ateb y galw rhagamcanol.<br>• gwneud y defnydd gorau o'r ystâd ysgolion bresennol, gan atal mannau sydd wedi'u tanddefnyddio rhag dod yn rhwymedigaethau, a chefnogi strategaethau rheoli asedau hirdymor<br>• darparu cyfleoedd i ateb y galw lleol am ddarpariaeth arbenigol a lleihau lleoliadau y tu allan i'r sir.<br>• darparu dosbarthiad gwell o leoedd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn nes at gartref sy'n caniatáu i ddysgwyr aros yn eu cymunedau, gan leihau amser teithio a gwella ymgysylltiad teuluol<br>• cefnogi cynhwysiant i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, gan hyrwyddo integreiddio a rhyngweithio cymdeithasol, wrth barhau i ddarparu cymorth targedig<br>• gwella llesiant, gyda dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn elwa o amgylcheddau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer hygyrchedd a chynhwysiant, y gellir eu cyflawni trwy ôl-osod yn feddylgar y gofodau presennol.<br>• caniatáu datblygiad graddol, gan ddechrau'n fach ac ehangu wrth i'r galw dyfu, heb ymrwymo i brosiectau cyfalaf ar raddfa fawr ymlaen llaw.<br>• lleihau effaith prosiectau adeiladu ar raddfa fawr ar gymunedau lleol.<br>• osgoi gwastraff dymchwel a charbon ymgorfforedig adeiladau newydd, gan alinio â nodau sero net a chynaliadwyedd<br>• caniatáu i fannau wedi'u haddasu gael eu had-drefnu eto os bydd tueddiadau demograffig yn |

| **Nodau** | **Sut bydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 nod llesiant** |
|---|---|
| | newid, gan gynnig gwytnwch yn erbyn niferoedd disgyblion sy'n amrywio. |
| **Iachach**<br>Cymdeithas lle mae lles corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol | Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i ddarparu Ysgolion Lleol i Blant Lleol, i annog y defnydd o ddulliau cynaliadwy o deithio i ysgolion, megis cerdded a beicio. Mae pob prosiect ysgol yn ystyried materion trafnidiaeth allweddol pan gaiff y prosiectau eu cynllunio ac yn ystyried yr angen i ddarparu llwybrau mwy diogel i annog cerdded, beicio a dulliau teithio llesol eraill i'r ysgol.<br><br>Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob ysgol yng Nghaerdydd Gynllun Teithio Llesol erbyn 2022. Mae cynllun felly'n nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol a bydd hefyd yn nodi unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol.<br><br>Gall swyddogion Cynlluniau Teithio Llesol y Cyngor gynorthwyo i ddatblygu'r Cynlluniau Teithio Llesol a gallant gynorthwyo gydag ymgysylltiad â'r Cynlluniau Teithio Llesol fel rhan o weithredu'r cynnig i ehangu lleoedd.<br><br>Mae Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd y Cyngor eisoes yn darparu rhaglen o hyfforddiant beicio a hyfforddiant i gerddwyr i annog pobl i fanteisio ymhellach ar deithio llesol i'r ysgol. Bydd y cymorth hwn yn parhau fel rhan o'r ymgysylltu a'r cymorth parhaus a ddarperir gan Dîm Teithio Llesol Ysgolion y Cyngor ar ddatblygu a darparu Cynlluniau Teithio Llesol. |
| **Cyfle**<br>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i wireddu eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol) | Mae polisi 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' y Cyngor yn nodi'r themâu a'r ymrwymiadau allweddol ar gyfer y pum mlynedd nesaf gan ganolbwyntio'n gryf ar roi plant a phobl ifanc yn flaenllaw yn eu huchelgeisiau ar gyfer y ddinas. Yn ganolog i hyn y mae'r gred unplyg mai addysg dda yw'r llwybr mwyaf sicr allan o dlodi ac, yn ei dro, fod ffyniant |

| **Nodau** | **Sut bydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 nod llesiant** |
|---|---|
| | hirdymor y ddinas yn dibynnu ar gymorth cadarn i'n plant a'n pobl ifanc wireddu eu potensial.<br><br>Mae addysg yn cael ei nodi'n gyson fel y brif flaenoriaeth i blant a phobl ifanc Caerdydd. Mae'n hawl gymdeithasol a diwylliannol allweddol sy'n chwarae rôl hanfodol wrth drechu tlodi ac anfantais.<br><br>Mae'r newidiadau a gynigir yn cyd-fynd â Caerdydd 2030 a strategaeth Cynhwysiant Caerdydd sydd yn amlinellu camau gweithredu i'r Cyngor a'i bartneriaid mewn pum maes allweddol:<br><br>• Dyfnhau ac ymgorffori ymarfer cynhwysol<br>• Cryfhau ymgysylltiad dysgwyr<br>• Darparu'r ddarpariaeth gywir a'r cymorth gorau<br>• Diwallu anghenion pob dysgwr<br>• Cefnogi a chryfhau'r gweithlu<br><br>Er mwyn diwallu anghenion pob dysgwr, mae Caerdydd am gael system addysg lle gall y mwyafrif helaeth o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ffynnu a diwallu eu hanghenion yn eu hysgol brif ffrwd leol.<br><br>Pan fo darpariaeth arbenigol er budd gorau dysgwyr, yr uchelgais yw y dylai dysgwyr gael eu lleoli mewn ysgol a gynhelir yng Nghaerdydd. Byddai hyn yn lleihau'r gwariant ar ddarpariaeth annibynnol fwy costus a all hefyd 'ddadleoli' dysgwyr o'u cymuned ehangach.<br><br>Mae Strategaeth Cynhwysiant Caerdydd ar gael i'w gweld yn Strategaeth Cynhwysiant Addysg |
| **Diwylliant Bywiog lle mae'r Iaith Gymraeg yn Ffynnu**<br>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth ac iaith Cymru, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden. | Disgwylir y byddai'r cynigion yn effeithio'n gadarnhaol ar y Gymraeg. |

| Nodau | Sut bydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 nod llesiant |
|---|---|
| **Yn Gyfrifol ar Lefel Fyd-Eang**<br>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o’r fath gyfrannu’n gadarnhaol at lesiant byd-eang | Mae'r newidiadau arfaethedig yn cyd-fynd â strategaethau corfforaethol, lleol a chenedlaethol. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid a phartneriaid i sicrhau bod y prosiectau'n cael eu cefnogi a bod pobl yn deall y cyfeiriad strategol. Mae hyn yn golygu bod rhanddeiliaid yn gwybod sut y bydd y cynllun arfaethedig yn helpu i gyflawni nodau busnes, nodau strategol a chynlluniau'r Awdurdod. |
| **Cydweithredu**<br>Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion lles. | Byddai'r newidiadau arfaethedig yn caniatáu mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau a chymunedau i sicrhau bod addysg yn parhau i gael ei ddarparu i bob disgybl<br><br>Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys ymgysylltu helaeth a chynnwys disgyblion, staff, llywodraethwyr a'r gymuned. Bydd hyn yn cynnwys cydweithio â rhanddeiliaid yn ystod ac ar ôl y broses ymgynghori.<br><br>Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion, Estyn, cynghorau cymuned a nifer o bartneriaid mewnol ac allanol i sicrhau y bydd ysgolion yn diwallu anghenion defnyddwyr a'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu yn y byrdymor byr ac yn y dyfodol. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut y gall amcanion lles cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau lles, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill | Mae integreiddio cymunedol yn bwysig i bob ysgol gan greu amgylchedd sy’n cefnogi diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg. Mae sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol yn cefnogi amcanion cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. |
| **Cyfranogiad**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni’r nodau lles a sicrhau bod y bobl hynny’n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae’r corff yn ei gwasanaethu. | Mae'r cynigion yn destun ymgynghoriad statudol ffurfiol. Bydd hyn yn galluogi cynnwys rhanddeiliaid (unrhyw un sydd â diddordeb yn y cynnig, yn arbennig y rhai y mae’n effeithio arnynt, gan gynnwys aelodau'r cyhoedd) yn y cynnig. |
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd cydbwyso anghenion byrdymor â'r angen i ddiogelu anghenion yn yr hirdymor. | Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad o'r holl safleoedd ysgolion prif ffrwd ac arbennig yng Nghaerdydd. |

| **Nodau** | **Sut bydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 nod llesiant** |
|---|---|
| | Mae amrywiaeth o gynigion posib wedi'u nodi a byddant yn cael eu cyflwyno fesul cam i ganiatáu ar gyfer datblygu cynigion ymhellach, adolygu data poblogaeth a'r galw am leoedd anghenion dysgu ychwanegol yn barhaus, y prosesau statudol angenrheidiol a gweithredu effeithiol.<br><br>Y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon yw'r cam cychwynnol i fynd i'r afael â'r galw sydd nawr am leoedd Anghenion Dysgu Ychwanegol. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i fodloni eu hamcanion. | |